Annwyl Gwsmer,

**<u>Ailagor Gwasanaeth</u>**

**Gwasanaeth Symudol Llanfachraeth**
**Yn effeithio ar wasanaethau symudol Llanfaelog, Bodffordd, Bryngwran, Malltraeth, Niwbwrch, Dwyran 2, Llandegfan 2, Llanddona, Bethel, Deiniolen, Moelfre, Rhosybol, Eglwys, Rowen, Henryd, Dwygyfylchi, Tal Y Bont 2, Penrhosgarnedd, Deganwy, Deganwy 2, Capel Curig, Dolwyddelan a Pentrefoelas**

Mae'n bleser gennym eich hysbysu ein bod wedi adfer y gwasanaethau Symudol uchod, oedd yn cael eu cynnig yn flaenorol o dan wasanaeth Symudol Llanfachraeth. Y Postreistr yn Swyddfa Bost Betws-Y-Coed sydd bellach yn gweithredu'r gwasanaethau Symudol, fel rhan o wasanaeth Symudol Betws-Y-Coed a dechreuodd ar 5 Tachwedd 2024. Rwy'n ymddiheuro am eich hysbysu'n hwyr ar yr achlysur hwn.

Yn ogystal, mae gwasanaeth Symudol Deganwy oedd wedi ei leoli yng Ngorsaf Deganwy, Ffordd yr Orsaf, Deganwy, Conwy, LL31 9EJ bellach wedi uno â gwasanaeth Symudol Deganwy 2 sy'n gweithredu yn Co-op, Ffordd Pentywyn, Deganwy, Conwy, LL31 9TG gydag oriau gweithredu newydd.

Mae gwasanaeth Symudol Llanfaelog oedd yn gweithredu'n flaenorol o Siop Gladdwr, The Wayside, Llanfaelog, Ynys Môn, LL63 5SY bellach yn gweithredu mewn lleoliad newydd: Maes Parcio Neuadd y Pentref, Llanfaelog, Ynys Môn, LL63 5SS gydag oriau gweithredu newydd hefyd. Mae manylion llawn y newidiadau hyn i wasanaethau ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bydd angen rhai newidiadau hefyd i'r gwasanaethau presennol sy'n cael eu cynnig gan fan Symudol Betws-Y-Coed, i ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn, gan effeithio ar oriau agor gwasanaethau Symudol yn Niwbwrch, Llandegfan, Llanddona, Bethel, Deiniolen, Moelfre, Rhosybol, Eglwys Bach, Rowen, Henryd a Phenrhosgarnedd. Ceir manylion pellach y newidiadau i'r gwasanaethau hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Fel y byddwch yn ymwybodol efallai, fe wnaeth gwasanaethau Allgymorth Capel Curig, Dolwyddelan a Pentrefoelas, rhan o wasanaeth Allgymorth presennol Betws-Y-Coed, gau yn ddiweddar. Ers y cau hyn, fe wnaeth Postfeistr Betws-Y-Coed barhau i weithio i ddod o hyd i ateb i adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r cymunedau hyn a gallaf gadarnhau eu bod wedi cael eu hadfer yn llwyddiannus fel gwasanaethau Symudol.

Rwy'n gwybod y bydd y gymuned leol yn ymuno gyda fi i groesawu'r newyddion da hwn a gobeithio y byddwch chi a'ch cwsmeriaid yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, mae croeso i chi rannu'r wybodaeth yma trwy eich cyfryngau cymdeithasol a chydag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned, er enghraifft ar hysbysfyrddau, elusennau lleol ac mewn meddygfeydd, i helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr i ddeall beth sy'n digwydd i Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Os hoffech gyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech eu codi am y mater hwn, ysgrifennwch ataf i trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn. Noder na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni bai eich bod yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny trwy nodi "Cyfrinachol" yn glir arnynt.

Rydym yn rhoi'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion o Gymuned. Mae detholiad yn ymwneud â Hysbysu ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch am eich cymorth yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Yn gywir,

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Rheolwr Newid Ardal**

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
RHADBOST Eich Sylwadau

**I gael y wybodaeth hon ar fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print mwy, ar sain neu mewn braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55**

| Manylion y gwasanaeth Symudol newydd: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Capel Curig** | Maes Parcio Caffi Siabod, Capel Curig, Betws-y-Coed, LL24 0EL |
| **Amserau agor** | |
| Dydd Gwener | 10:25 – 11:25 |

| Manylion y gwasanaeth Symudol newydd: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Dolwyddelan** | Ar Ochr y Ffordd yn AJ Physio, Ffordd yr Eglwys, Dolwyddelan, LL25 0SJ |
| **Amserau agor** | |
| Dydd Gwener | 11:50 – 12:50 |

| Manylion y gwasanaeth Symudol newydd: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Pentrefoelas** | Maes Parcio, Pentrefoelas, Betws-y-Coed, LL24 0LE |
| **Amserau agor** | |
| Dydd Gwener | 13:45 – 14:45 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symduol Deganwy** | Co-op Deganwy, Ffordd Pentywyn, Deganwy, LL31 9TG |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 11:40 – 12:40 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Niwbwrch** | Blaen Sefydliad Prichard Jones, Niwbwrch, Llanfairpwllgwyngyll, LL61 6SY |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:40 – 13:25 |
| Dydd Iau | 14:20 – 15:05 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Llanfaelog** | Maes Parcio Neuadd y Pentref, Llanfaelog, Ynys Môn, LL63 5SS |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 10:30 – 11:15 |
| Dydd Iau | 13:15 – 14:00 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Bodffordd** | Fronheulog, Bodffordd, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LZ |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:00 – 09:30 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Bryngwran** | Maes Parcio'r Iorwerth Arms, Stryd Fawr, Bryngwran, Ynys Môn, LL65 3PP |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:45 – 10:15 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Malltraeth** | Fflatiau Morawelon, Malltraeth, Bodorgan, Ynys Môn, LL62 5AN |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:30 – 12:00 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasasnaeth Symudol Dwyran** | Meddygfa Penbryn, Dwyran, Llanfairpwllgwyngyll, LL61 6YD |

**Amserau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 13:35 – 14:05 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Llandegfan** | Maes Ffynnon, Llandegfan, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5PR |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 09:00 – 09:30 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Llanddona** | Maes Parcio Maes Gwyn, Llanddona, Biwmares, Ynys Môn, LL58 8TP |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 09:45 – 10:15 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Bethel** | Neuadd Goffa Bethel, 2 Rhos, Bethel, Caernarfon, LL55 1YE |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 09:00 – 09:45 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Deiniolen** | Maes parcio Uchaf Llyfrgell Deiniolen, Stryd Fawr Deiniolen, Caernarfon, LL55 3HR |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 14:45 – 15:15 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Moelfre** | Tu Allan i Lyfrgell Moelfre, Y Ganolfan, Moelfre, Ynys Môn, LL72 8LS |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 10:45 – 11:15 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Rhosybol** | B511 Stad Shop Newydd, Rhosybol, Amlwch, Ynys Môn, LL68 9RH |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 15:30 – 16:00 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Eglwys Bach** | Maes parcio'r Bee Inn, Maes Llan, Eglwysbach, Bae Colwyn, LL28 5UD |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 09:15 – 09:45 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Rowen** | Maes Parcio Neuadd Goffa Rowen, Ystâd Llanerch, Rowen, Bae Conwy, LL32 8YA |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 10:05 – 10:35 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Henryd** | Cyffordd Oddi ar Maes Refail A Ffordd Henryd, Henryd, Aberconwy, LL32 8YH |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 10:50 – 11:20 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Dwygyfylchi** | Ffordd Treforris, (gerllaw y bocs ffôn), Dwygyfylchi, Penmaenmawr, LL34 6UB |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 13:30 – 14:30 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Tal Y Bont** | Cae Bach, Tal-y-bont, Gwynedd, LL57 3YJ |

**Amserau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 14:50 – 15:35 |

| Manylion y newid i oriau agor presennol y gwasanaeth Symudol: | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Penrhosgarnedd** | Cilfan y tu allan i Siop One Stop, Ffordd Penrhos, Penrhosgarnedd, LL57 2NH |

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 15:55 – 16:40 |

**I gael y wybodaeth yma ar fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print mwy, ar sain neu mewn braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55**

**Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol ar newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu a chefnogi ein cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Bydd yr Egwyddorion canlynol yn cael eu mabwysiadu wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen leol o Swyddfa'r Post.**

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *– pan fyddwn yn hysbysu cwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor
- Cau heb ei gynllunio[1]/ amharu ar wasanaeth wedi ei gynllunio
- Ailagor cangen sydd wedi cau ar yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n gysylltiedig â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Rhyddfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol ar ei safle presennol lle nad oes unrhyw newidiadau o ran mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post

Byddwn yn arddangos poster mewn cangen (neu gerllaw os yw'n briodol) i hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gyda'r nod o roi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd rhybudd o bedair wythnos yn bosibl ar gyfer newid heb ei gynllunio, ac yn yr achosion hyn, byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer cau, byddwn yn cynnwys manylion y Swyddfeydd Post agosaf a'n llinell gymorth/ffôn testun i gwsmeriaid.

Rydym yn hysbysu cynrychiolwyr sydd wedi eu hethol yn lleol, yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, Aelodau Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Cyngor Plwyf neu Gymuned, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rural Community Network Gogledd Iwerddon. Cânt eu hannog hefyd i rannu'r holl wybodaeth gyda grwpiau lleol a sefydliadau y credant allai fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

***Mae'r Egwyddorion hyn wedi cael eu cytuno gyda Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a'r General Consumer Council for Northern Ireland, cyrff eiriolaeth defnyddwyr statudol annibynnol.***

Beth i'w wneud os nad ydych yn teimlo bod yr Egwyddorion hyn wedi cael eu dilyn:

Cysylltwch â ni er mwyn i ni allu ymchwilio i'ch cwyn. Byddwn yn esbonio yn ein hateb a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu Cymunedol a byddwn yn rhoi manylion cyswllt y corff eriolaeth defnyddwyr perthnasol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland, neu'r Consumer Council for Northern Ireland) os nad ydych yn fodlon gyda'n hymateb. Bydd y corff eriolaeth defnyddwyr yn asesu'n annibynnol a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau gweithredu o ran y gŵyn.

**Postofficeviews.co.uk**

**Comments@postoffice.co.uk**

**RHADBOST Eich Sylwadau**

**Ffôn: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1]Os nad yw'r cau wedi cael ei drefnu, bydd darpariaeth y gwasanaeth yn cael ei adolygu ar sail defnydd presennol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth newydd neu amgen addas. Bydd penderfyniad masnachol yn cael ei wneud ynghylch ceisio amnewid y gwasanaeth sydd wedi cau ac ni fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.